Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Gwybodaeth ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

**Mae'r daflen hon yn nodi beth allwch ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol os byddwch yn dioddef trosedd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sefydliadau y gallwch gysylltu â hwy am ddim, gwybodaeth ymarferol a chymorth emosiynol.**

Diolch am hysbysu'r heddlu am y digwyddiad. Isod ceir ychydig o fanylion am y digwyddiad yr ydych wedi adrodd amdani a manylion cysylltu defnyddiol eraill. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gadw'r daflen hon ar gyfer y dyfodol fel bod gennych yr holl fanylion cysylltu a'r wybodaeth bwysig am y digwyddiad yr ydych wedi adrodd amdani mewn un man, ynghyd â manylion am wasanaethau cynghori a chymorth i ddioddefwyr troseddau.

## Manylion y drosedd yr ydych wedi adrodd amdani

### Y cysylltiad cyntaf â'r heddlu

Enw a rhif y swyddog:

Rhif ffôn swyddfa'r heddlu:

### Y swyddog sy'n delio â'r achos (os yw'n wahanol i'r uchod)

Enw a rhif y swyddog:

Rhif ffôn

### Manylion yr achos troseddol

Dyddiad yr adroddwyd am y digwyddiad:

Dyddiad y digwyddiad: (os yw'n wahanol):

Cyfeirnod yr achos troseddol:

Disgrifiad o'r digwyddiad:

## Y camau nesaf

Bydd yr heddlu yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â beth i'w ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol, yn cynnwys gwybodaeth am y Cod Dioddefwyr. Mae'r Cod Dioddefwyr yn nodi'r gwasanaethau y gallwch ddisgwyl eu derbyn gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Bydd yr heddlu yn cynnal "asesiad angen" ac yn gofyn cwestiynau i chi er mwyn penderfynu pa help a chymorth fydd ei angen arnoch. Mae'r Cod Dioddefwyr yn nodi beth yw eich hawliau o ran gwneud cwyn o dan y Cod Dioddefwyr os ydych yn anhapus â'r gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn.

Os hoffech ddarllen y Cod cyfan, neu weld arweiniad byrrach i'r Cod, ewch i: www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime

Hyd yn oed os nad oeddech yn byw yng Nghymru neu Loegr pan ddigwyddodd y drosedd, mae gennych hawl i dderbyn y gwasanaethau a nodir yn y Cod Dioddefwyr os digwyddodd y drosedd yng Nghymru neu Loegr, neu os yw'r gwasanaeth yn gysylltiedig ag achos troseddol sy'n cael ei gynnal yma.

**Datganiad Personol y Dioddefwr (DPD):** Mae'r Cod Dioddefwyr yn rhoi hawl i ddioddefwyr troseddau wneud Datganiad Personol y Dioddefwr (DPD). Mae'r DPD yn helpu i ddioddefwyr gael llais yn y broses cyfiawnder troseddol. Yn eich DPD gallwch ddweud wrth y llys a'r Bwrdd Parôl, pan fo hynny'n gymwys, sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu. Gallwch ddewis darllen eich datganiad ar lafar yn y llys neu gael rhywun arall i'w ddarllen ar eich rhan os canfyddir bod y diffynnydd yn euog. Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/government/publications/victim-personal-statement

Os byddwch yn cytuno â hynny, bydd yr heddlu yn trosglwyddo eich manylion i sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i wasanaeth cymorth lleol. Gallwch hefyd gysylltu â'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol os hoffech gymorth yn dilyn trosedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i: www.victimsinformationservice.org.uk neu ffonio **0808 168 9293**.

**Gweithio gyda'r heddlu i ymchwilio i'ch trosedd:** Er mwyn helpu'r heddlu i ymchwilio i'ch trosedd, dylech roi gwybod iddyn:

- Os ydych yn cofio unrhyw beth nad yw wedi ei gynnwys yn eich datganiad presennol.

- Os bydd eich manylion cysylltu yn newid.
- Os oedd y drosedd yn cynnwys unrhyw fath o elyniaeth, er enghraifft os cawsoch eich targedu oherwydd eich hil, rhywioldeb, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol, neu hil, rhywioldeb, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol tybiedig.
- Os oes gennych unrhyw anghenion penodol, er enghraifft gofynion mewn perthynas â symudedd, cyfathrebu neu grefydd.

**Gwarchod rhag aflonyddu neu fygwth:** Os byddwch chi, neu bobl sy'n agos atoch, yn cael eich aflonyddu neu eich bygwth mewn unrhyw ffordd yn ystod ymchwiliad neu dreial, dylech gysylltu â'r heddlu ar unwaith. Os bydd y diffynnydd ar fechnïaeth, gall y llys osod amod fydd yn rhwystro'r cyhuddedig rhag cysylltu mewn unrhyw ffordd â pherson neu bersonau penodol. Gallwch hefyd wneud cais i'r llys am waharddeb yn erbyn y cyhuddedig os ydych yn credu y bydd ef neu hi yn debygol o aflonyddu arnoch. Os caiff y cyhuddedig ei gollfarnu neu ei ryddfarnu, gall y llys roi gorchymyn ataliaeth. Hefyd, mae gwarchodaeth i ddioddefwyr a thystion rhag aflonyddu ar dystion yn ymestyn at hyd at flwyddyn ar ôl diwedd y treial.

**Cyhuddiadau troseddol:** Mewn rhai achosion, os bydd rhywun yn cael ei arestio a'r gyhuddo, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) yn penderfynu erlyn neu beidio a ph'un a ddylid mynd â'ch achos i lys neu beidio. Am fwy o wybodaeth am GEG, ewch i: www.cps.gov.uk neu ffonio **0203 357 0000**.

Yn dilyn cyhuddiad, bydd **Uned Gofal Tystion yr heddlu/GEG** ar y cyd yn rhoi un pwynt cyswllt i chi ynglŷn â datblygiad eich achos, yn cynnwys dyddiad y gwrandawiad. Gallant hefyd roi gwybodaeth i chi ynglŷn â hawlio costau am fynychu'r llys, yn cynnwys costau teithio, ymweliadau cyn y treial, lwfans bwyd, colli cyflog a gofal plant. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.cps.gov.uk/news/fact_sheets/witness_care_units/

**Mynd i'r llys fel tyst** **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM)** sy'n gyfrifol am gynnal yr holl lysoedd. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/going-to-court-victim-witness/help-getting-to-the-court.

Mae'r **Siarter Tystion** yn nodi'r safonau gofal y gallwch eu disgwyl os ydych yn dyst i drosedd neu ddigwyddiad yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Siarter ar gael ar-lein yn: www.gov.uk/government/publications/the-witness-charter-standards-of-care-for-witnesses-in-the-criminal-justice-system.

Mae yna DVD 'Mynd i'r Llys - Canllaw Cam Wrth Gam i Fod yn Dyst' sy'n egluro beth sy'n digwydd yn y llys. Gallwch weld hwn drwy wefan www.gov.uk: (www.gov.uk/going-to-court-victim-witness): www.gov.uk/going-to-court-victim-witness

Hefyd, mae gan GLlThEM daflen 'Rydych yn Dyst ar ran yr Erlyniad' ynglŷn â'r gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael mewn Llysoedd y Goron a Llysoedd Ynadon unigol. Gellir gweld hon hefyd ar-lein yn: https://courttribunalfinder.service.gov.uk/

Mae'r **Gwasanaeth Tystion**, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor ar Bopeth, yn helpu dioddefwyr a thystion sy'n mynychu'r llys. Maent yn staff a gwirfoddolwyr hyfforddedig y gallwch siarad â hwy ynglŷn â beth i'w ddisgwyl cyn i chi fynd i'r llys yn ystod ymweliad cyn treial, a phwy fydd hefyd yn bresennol i roi cymorth i chi yn y llys. Ni all y Gwasanaeth Tystion darfod yr achos na chynnwys eich tystiolaeth gyda chi. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.adviceguide.org.uk neu ffonio **0300 332 1000**

**Iawndal:** Os ydych wedi dioddef trosedd dreisgar a chithau'n hollol ddiniwed, efallai y bydd gennych hawl i dderbyn iawndal gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (ADAT). Gallwch wneud cais ar-lein yn www.gov.uk. Os bydd angen help arnoch i wneud cais dros y ffôn, cysylltwch â chynghorwyr Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid ADAT ar **0300 003 3601**.

Gallwch wneud cais am iawndal os bydd rhywun wedi cael ei erlyn am y drosedd neu beidio, ond mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad. Ni ddylech ddisgwyl tan ddiwedd treial sifil neu droseddol cyn gwneud cais am iawndal am anafiadau troseddol.

I ganfod a ydych yn gymwys i dderbyn taliad oherwydd i chi ddioddef caledi ariannol uniongyrchol, cysylltwch â **Chymorth Dioddefwyr** ar **0845 30 30 900** neu ewch i: www.victimsupport.org.uk cyn gynted â phosibl.

**Cyfieithu:** Os nad ydych yn deall neu'n siarad Saesneg, mae gennych hawl i ofyn am gyfieithiad i iaith yr ydych yn ei deall wrth adrodd am drosedd, wrth gael eich cyfweld gan yr heddlu neu wrth roi tystiolaeth mewn achos troseddol. Yng Nghymru, mae gennych hawl cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth a bydd y llys yn gwneud y darpariaethau angenrheidiol. Mae'r Cod Dioddefwyr yn nodi eich hawl i ofyn am gyfieithiad o ddogfennau allweddol fel rhan o'r achos, yn cynnwys y gydnabyddiaeth ysgrifenedig.

**Cyfiawnder Adferol:** Fel dioddefwr, efallai y byddwch yn gallu ymgymryd â Chyfiawnder Adferol a mynegi eich safbwynt ynglŷn â datrysiad y drosedd yn eich erbyn. Cyfiawnder Adferol yw'r broses o ddod â dioddefwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed at ei gilydd er mwyn canfod ffordd gadarnhaol o symud ymlaen. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.restorativejustice.org.uk.

**Collfarnu, dedfrydu, rhyddhau a goruchwyliaeth prawf:** Pan fo rhywun yn cael ei farnu'n euog o droseddu ac yn cael ei anfon i'r carchar, bydd yn cael ei drosglwyddo i ofal y Gwasanaeth Carchardai. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/government/organisations/hm-prison-service.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am eich hawliau o dan y Cod Dioddefwyr ar ôl dedfrydu, megis gwybodaeth am y **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr** a rôl y **Bwrdd Parôl**, ewch i www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime neu www.gov.uk/government/organisations/parole-board.

**Mwy o Wybodaeth:** Gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ddioddefwyr i gael mwy o wybodaeth fanwl am gymorth a gwasanaethau i ddioddefwyr yn: www.victimsinformationservice.org.uk
neu ffonio **0808 168 9293**.

Gall **Cyngor ar Bopeth** helpu gyda phroblemau ariannol neu gyngor, materion cyfreithiol neu broblemau ymarferol eraill. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: www.citizensadvice.org.uk
neu ffonio **0845 126 4264.**